

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos Lun, 23 Medi 2013 yng Nghlwb Golf Dolgellau

Presennol: Presennol: Rhys (RD) - Cadeirydd ,Iolo ap Gwyn(IAG),Mark (MW),Sioned (SLJ), Iolo (IPR),Eryl (EO), Gareth (GER)

Ymddiheuriadau: Anita, Dewi ,John, Richard, Sian

1.	<p><u>COFNODION</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11eg Mai 2013 fel rhai cywir.</p> <p>Materion yn codi</p> <p><u>Eisteddfod Genedlaethol 2013</u></p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Diolch i Siân am ei gwaith trefnu ar gyfer y ddarlith eleni ac i John Parry am ei thraddodi 2. Dylid ystyried cynnal y ddarlith yn flynyddol 3. Os symudir ymlaen â hyn dylid ystyried cynnal darlith ar y pwnc "Enwau Mynyddoedd" y tro nesaf yn Eisteddfod Llanelli 4. Os am ei gwneud yn ddarlith flynyddol, angen ystyried os oes gwell safle i'w chynnal oddi fewn i'r maes 5. Cael barn teulu Llew os ydynt yn hapus i'r Clwb ddefnyddio'r teitl "Darlith Goffa Llew Gwent" ar sail barhaol 6. Ystyried y mater eto yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Ionawr <p><u>Eitem 4 – Aelodaeth y Clwb</u></p> <p>Adroddodd RD nad oedd ef ac AD wedi cael cyfle i drefnu sesiwn blasu ar gyfer dringwyr ac roeddynt bellach yn edrych ar wneud rhywbeth ar gyfer gwanwyn flwyddyn nesaf</p> <p><u>Eitem 5 - Aelodaeth y clwb - trefniadau gweinyddol</u></p> <ol style="list-style-type: none"> i. Cytunwyd y dylid ystyried a fyddai'n ymarferol i gael logo'r CMP, maint bychan, ar gongl y cerdyn aelodaeth ii. Os yn ymarferol i wneud hynny, dylid trefnu fod yr aelodau hynny sydd heb e-bost yn derbyn fersiwn papur o raglen weithgareddau'r clwb <p><u>Eitem 7 – Swydd Is-gadeirydd</u></p> <p>Adroddwyd bod Richard wedi derbyn swydd Is-gadeirydd y Clwb erbyn hyn</p> <p>Penderfynwyd diolch i Richard am gytuno i dderbyn y swydd</p>	<p>RD</p> <p>IPR</p>
2	<p><u>GWEFAN Y CLWB</u></p> <p>Ystyriwyd pa opsiynau sydd ar gael ar gyfer ailwampio gwefan y clwb</p> <p>Cytunwyd</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gofyn i IaG lunio 3 opsiwn posibl ar gyfer gwefan y clwb yn seiliedig ar y trafodaethau a gafwyd a'r safleoedd eraill yr edrychwyd arnynt 2. Awdurdodi IaG i gyflogi arbenigwr i'w gynorthwyo hefo'r gwaith yma yn ôl yr angen 3. Ar ôl eu paratoi gofyn i IaG gylchredeg yr opsiynau o gwmpas aelodau'r pwyllgor yn gofyn am adborth 	<p>IaG RD</p>

	<p>4 Gofyn i IaG a RD ystyried yr ymatebion a chytuno ar ffordd ymlaen</p> <p>5. Dylid anelu i gyflwyno fersiwn newydd o Wefan y clwb i'r Cyfarfod Blynyddol ar 26ain Hydref i'w gymeradwyo gan yr aelodau</p>	
3	<p><u>AELODAETH Y CLWB</u></p> <p>Cytunwyd y dylid edrych ar y canlynol i geisio ehangu'r neges am weithgareddau'r clwb yn gyffredinol ac ymysg pobl ifanc yn arbennig</p> <p>Defnydd o gyfryngau fel Facebook a Thrydar</p> <p>Edrych os byddai'n bosib defnyddio canolfannau hamdden fel ffordd i ledaenu gwybodaeth am y clwb</p> <p>Edrych ar bosteri cyfredol y Clwb ac os oes angen addasu/diweddarau ac wedyn ystyried sut i'w dosbarthu er mwyn codi ymwybyddiaeth am y Clwb</p> <p>Gofyn i IR ddsbarthu y poster presennol sydd gan y clwb ymysg aelodau'r pwyllgor er mwyn gweld os oes angen ei addasu</p> <p>Bydd RD ac AD yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o gynnal sesiwn blasu dringo yn y gwanwyn</p> <p>Gofyn i IPR drefnu i gyflwyno'r wybodaeth a gasglwyd o'r holiadur profiad a sgiliau aelodaeth y clwb a ddsbarthwyd ymysg yr aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol ar 26ain Hydref</p>	
4	<p><u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u></p> <p>Adroddodd EO ei fod yn gweithio ar drefnu rhaglen weithgareddau am y cyfnod Rhagfyr i Fawrth. Yn gyffredinol roedd yn fodlon ei fod yn cael digon o syniadau ac arweinwyr ar gyfer cynnal teithiau. Yr unig broblem a wynebai oedd cael y wybodaeth am holl amrywiaeth gweithgareddau'r clwb ar yr un pryd fel y gellid anfon allan un rhaglen gyflawn. Yn hytrach roedd yn aml yn anfon rhaglen hefo gweithgareddau'r gogledd ynddi ac yn gorfod anfon gwybodaeth am weithgareddau eraill y Clwb yn ddiweddarach.</p> <p>Cytunwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynegi gwerthfawrogiad y pwyllgor o waith EO yn llunio'r rhaglen a nodi eu bod yn gweld y bwletinau a anfonir yn hynod o ddefnyddiol • Bydd RD yn trefnu taith clwb i Iwerddon yn ystod Mai 2014 • Dylid cynnal penwythnos dechrau Ionawr yn y Gogledd naill ai yn Rhyd Ddu neu os oes darpariaeth addas yng nghyffiniau ardal Bethesda • Trefnu penwythnos (ar ffurf penwythnos Sir Benfro) gan, o bosib, ddefnyddio Llanystumdwy fel canolfan • Bydd IPR yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o drefnu taith i'r Clwb ar hyd y GR20 yn Corsica yn ystod 2014 • Dylid edrych os yw'n bosibl datblygu mwy ar weithgareddau beicio ar gyfer aelodau'r Clwb 	EO
5	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL</u></p> <p>Cadarnhaodd IPR y bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal ym Mhlas y Dre, Y Bala ar nos Sadwrn, 26ain Hydref. Alun Fachwen Huws fydd y gŵr gwadd yn trafod 'Defaid a Dringo - tu ôl i'r camera'. Mae'r rhaglen ac ati eisoes wëdi eu dosbarthu ond gwan fu'r ymateb hyd yma. Bydd nodyn atgoffa yn cael ei gylchredeg yn y dyfodol agos.</p> <p>Adroddodd IPR na chafwyd unrhyw enwebiadau ar gyfer gwasanaethu ar y pwyllgor hyd yma. Bydd yn gyrru neges o gwmpas yr aelodau presennol i weld faint fyddai'n barod i barhau i wasanaethu arno</p> <p>Nodwyd eisoes y bydd yr aelodau yn cael cyflwyniad i'r wefan newydd (os yn barod) ac y bydd IPR yn rhoi adborth ar yr ymatebion a gafwyd i'r holiadur profiad a sgiliau aelodau ddsbarthwyd i'r aelodau yn ystod y gwanwyn/haf.</p>	IPR
6	<p><u>RHAGLEN HYFFORDDIANT</u></p>	

	<p>Cytunwyd y dylid ystyried darparu'r cyrsiau canlynol</p> <p>Cwrs Cymorth !af - dylid holi os byddai JP yn barod i drefnu cwrs arall cyffelyb</p> <p>Cwrs Mordwyo</p> <p>Cwrs defnyddio teclynnau GPS - os diddordeb</p>	
7	<p><u>OFFER</u></p> <p>Penderfynwyd gofyn i AD drafod cyflwr y rhaffau a ddefnyddir yn y gogledd gydag Arwel ac archebu rhai newydd os oes angen.</p>	AD
8	<p><u>UNRHYW FATER ARALL</u></p> <p>Adroddwyd ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed syniad Mari Gwent (merch Llew) i weld y sgysiau y bu ei thad yn eu cynnal ym Mhlas y Brenin yn cael eu hatgyfodi a'u datblygu. Roedd y pwyllgor eisoes wedi ystyried syniadau Mari ac wedi datgan ei gefnogaeth</p> <p>Erbyn hyn mae cynhadledd wedi ei threfnu ym Mhlas Tan y Bwlch ar 23ain Tachwedd 2013 o dan y pennawd "Mynyddoedd Pawb" gyda'r bwriad o:</p> <ul style="list-style-type: none"> •ddiogelu a dathlu'r enwau ar nodweddion y mynyddoedd a'r tir •sicrhau y parch dyledus i enwau Cymraeg gan ymwelwyr ac eraill •cyflwyno'r cyfoeth o hanes a chwedloniaeth sydd yn ein henwau lleoedd <p>Bydd EO yn mynychu ac hefyd mae manylion am y gynhadledd a gwahoddiad i fynychu ar safle We y Clwb er gwybodaeth i aelodaeth</p>	EO
9	<p><u>CYNGOR MYNYDDA PRYDEINIG</u></p> <p>Nodwyd ei bod yn bwysig bod y Clwb yn cael ei weld yn cefnogi y CMP. Byddai RD yn cael gair hefo Elfyn Evans, i weld os oes ganddo farn ynglyn â y sut y gallai'r Clwb ei gefnogi yn ei waith hefo'r CMP</p>	RD
10	<p><u>PARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Dim penodol i'w adrodd.</p>	
11	<p><u>CYFARFODYDD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn ystod mis Ionawr, os yn ymarferol yn ystod penwythnos y clwb yn y gogledd</p>	IPR

